PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 6 Chwefror 6, 2025 50c.

## Apêl Ffynhonnau Byw

Bydd yr apêl sydd ar y cyd rhwng Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef Ffynhonnau Byw yn cau ar ddiwedd mis Chwefror 2025.

Anfonwch eich holl gyfraniadau at Undeb yr Annibynwyr cyn gynted ag y bo modd. Diolch o galon am eich haelioni.



## Diolch i Alun ar ei ymddeoliad

***'hyn o barch a rown bob un yn wylaidd, diolch Alun.'***




Dros baned yn y festri, yn dilyn yr oedfa deulu yn eglwys y Priordy, Caerfyrddin fore Sul 12 Ionawr 2025 cafwyd cyfle i ddiolch i Alun Charles am ei waith arbennig fel ysgrifennydd yr eglwys am yn agos i 30 mlynedd ac i ddymuno'n dda iddo wrth ymddeol o'i swydd. Llywyddwyd y digwyddiad gan Sulwyn Thomas, diacon sydd wedi cyd-weithio ag Alun ers blynyddoedd lawr.

Cyflawnodd Alun ei waith fel ysgrifennydd yn drylwyr a chydwybodol, yn dawel gadarn ac yn ddoeth iawn ei eiriau bob amser. Bu'n gyfaill heb ei ail i weinidogion y Priordy. Rhannodd y weledigaeth glir o bwrpas eglwys leol, a bu'n ysgrifennydd a welai'r gorau ym mhawb a phopeth. Ni adawodd i unrhyw ddigalondid ein llethu fel eglwys ond ein hannog i ystyried y cadarnhaol bob amser. Bu'n frwd ei gefnogaeth i brosiectau newydd, a phob amser yn edrych ymlaen at y dyfodol.

Mae gan aelodau'r Priordy barch mawr tuag ato ac ystyrir ef yn gyfaill gan bawb o bob oed. Dymunwn ymddeoliad hapus a haeddiannol i Alun, gan ddiolch o waelod calon iddo am ei waith. Er ei fod yn ymddeol fel ysgrifennydd, rydym yn falch o wybod y bydd yn parhau fel golygydd Papur Misol yr Ofalaeth, gwaith y mae ei gyflawni ers nifer fawr o flynyddoedd gyda'r un brwdfrydedd a thrylwyrder.

Cyflwynwyd rhodd i Alun ar ran yr eglwys gan ein gweinidog, y Parchg Beti-Wyn a ddarllenodd hefyd gywydd gan un o aelodau'r Priordy, y Prifardd Tudur Dylan Jones - sy'n mynegi'n llawn ein hoffter ohono a'n diolch iddo.

### I Alun Charles, ar derfyn ei gyfnod fel Ysgrifennydd Eglwys y Priordy

Arwyr bob un ydyn nhw,
y sawl na fynnant sylw,
y distaw gweithgar dystion
ymhob plwy o Fynwy i Fôn,
golud o hyd i'n gwlad ŷnt ...
Alun sy'n un ohonynt.

Yn dawel ddirgel fe ddaw
Alun i daro'r alaw;
y diymhongar arwr,
ac i ninnau'r gorau gŵr,
y cawr hoff yn cario'r iau,
hyn i gyd ers degawdau.

Heb ludded, gwna galedwaith
pythefnos mewn wythnos waith;
i'w ardal a'i Briordy
hwn ydyw'n tad yn y Tŷ,
Alun hael heb ddisgwyl 'nôl,
Moses y Papur misol!

Celu'i waith heb geisio clod
wna'r un sy'n weithiwr hynod;
diorffwys i'w eglwys yw
yr un dedwydd, ffrind ydyw,
hyn o barch a rown bob un
yn wylaidd, diolch Alun.

*Beti-Wyn James*

## Newyddion eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais

### Operation Christmas Child

Bu'r ymgyrch eto eleni yn un llwyddiannus iawn. Cafwyd gwasanaeth hyfryd gan blant ac ieuenctid y capel wrth iddyn nhw gyflwyno gwasanaeth effeithiol ar degwch. Cyflwynwyd y neges wrth i'r plant chwarae gemau a thrafod rheolau gwahanol gemau fel Jenga. Wrth gwrs, mae rheolau'n bodoli er mwyn bod pawb yn chwarae'n deg, ond yn anffodus, nid yw pob plentyn ar draws y byd yn cael chwarae teg. Wrth gyflwyno bocsys Operation Christmas Child, rydym yn dangos ein bod yn meddwl am y plant hynny nad ydyn nhw'n cael eu trin yn deg. Diolch i Meinir Jones a Luned Jones am baratoi'r plant a'r gwasanaeth.

*parhad ar dudalen 2*



# Newyddion eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais – parhad

### Bedydd

Cafwyd oedfa hyfryd iawn bore yma, pan fedyddiwyd Loti Ffion, merch fach Elin a Gavin. Dymunwn fendith Duw ar y teulu i'r dyfodol.




### Yr ysgol Sul

Ar ddechrau Rhagfyr fe aeth plant yr ysgol Sul ar daith i'r Tesco lleol. Y bwriad oedd siopa am nwyddau a bwydydd Nadoligaidd ar gyfer y banc bwyd lleol. Roedd y plant wrth eu boddau yn dewis amrywiaeth eang o nwyddau addas i'r banc bwyd. Dyma gyfle i gyflwyno neges bwysig i blant yr ysgol am sut allwn ni helpu pobl lai ffodus.

### Dathliad Nadolig

Roedd hi'n braf gallu cwrdd fel aelodau o'r Clwb Plant a'r Clwb Ieuenctid i ddathlu'r Nadolig yn festri'r capel. Cafwyd gwledd o bitsas o siop leol, cracers Nadolig a llawer o hwyl a sbri. Braf yw gweld cymaint yn mynychu'r clybiau i drafod ac ystyried yr Efengyl. Edrychwn ymlaen at barhau gyda gwaith y clybiau hyn yn y flwyddyn newydd.

# Peniel: Drama'r Geni

Y noson ar ôl difrod Storm Darragh oedd hi, nos Sul 8 Rhagfyr. Cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni plant a phobl ifanc yr eglwys, wrth iddynt gyflwyno eu dehongliad o Stori'r Geni inni. Roedd hi'n noson gyfareddol, yn llawn naws y Nadolig. Hyfryd oedd gweld yr angylion bach, y bugeiliaid, y doethion a Mair a Joseff yn ein tywys drwy'r stori. Diolch i bobl ifanc yr eglwys am eu cyfraniadau hefyd. Un foment sy'n aros yn y cof oedd perfformiad teimladwy Heledd a Mared o 'Mair, a wyddet ti?' wrth i Mair weddïo ar ei gliniau. Mae'r noson hon wastad yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, ac mae'n ganlyniad i waith caled a medrus Carys a thîm yr ysgol Sul. Diolch i bawb, a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

**Catrin Llwyd**
(allan o *Pigion Peniel*, Ionawr 2025)



Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin
Y Gymdeithas

Cofio...



Y Parchg W RHYS NICHOLAS
(1914-1996)

Siaradwr:
RICHARD EYNON HUWS
Bontgoch, Aberystwyth
(Nai y diweddar Beti a W. Rhys Nicholas)

Gyda:
PEDWARAWD BRYNAWEL
Helen Gibbon a'i ffrindiau yn canu detholiad o emynau W. Rhys Nicholas

DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR
2.00
FESTRI HEOL AWST, Caerfyrddin

CROESO CYNNES I BAWB

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 6 2025 RHIF 206

# Lansio elusen Gristnogol newydd: 43:19


Band addoli


Deb Stammers ac Andy Hughes


Gweddïo dros Gymru



Andy a Rachel Hughes

Ers dros 35 mlynedd bu Andy a Rachel Hughes o Landderfel, ger y Bala, yn gweithio'n ddiwyd a ffyddlon yn cefnogi gwaith plant ac ieuenctid mewn eglwysi ledled Cymru. Fe dreulion nhw'r cyfnod hwnnw'n gweithio i elusen Saint y Gymuned (Croesgadwyr oedd enw'r elusen tan iddyn nhw newid yr enw 15 mlynedd yn ôl). Ymhlith eu rhaglen waith flynyddol yr oedd cynnal gwersylloedd fforddiadwy i deuluoedd yn hollbwysig. Dros y blynyddoedd fe wnaeth miloedd o blant a'u rhieini fwynhau amser yn y gwersylloedd hynny, a heb ymdrech Andy a Rachel, mae'n debygol na fyddai llawer o'r teuluoedd hynny wedi cael unrhyw wyliau yr haf hwnnw.

Cyfraniad mawr arall gan Andy yw iddo gyfansoddi degau o ganeuon Cristnogol i blant, gan eu recordio a'u ffilmio, er mwyn i ysgolion Sul eu defnyddio. Mae modd eu gweld ar wefan ysgolsul.com drwy glicio ar y ddolen: https://gair.cymru/caneuon-cristnogol-i-blant.

Bu Andy hefyd yn brysur adeg y pandemig yn trefnu clwb plant wythnosol drwy'r post, a defnyddiwyd y rhain yn helaeth gan ysgolion Sul ar hyd a lled y wlad. Cyfraniad arall oedd trefnu taith sioe bypedau flynyddol i ysgolion cynradd adeg y Nadolig er mwyn cyflwyno neges y geni. Eto, mae yna filoedd ar filoedd o blant erbyn hyn wedi elwa o weld y cyflwyniadau bywiog hynny. Diben yr elusen oedd cyrraedd plant y tu allan i'r eglwys gyda'r newyddion da am Iesu, a thros y blynyddoedd bu Andy a Rachel yn allweddol yn y gwaith o sefydlu nifer o glybiau plant mewn capeli ac eglwysi. Andy oedd wyneb cyhoeddus yr elusen, tra oedd Rachel yn gweithio'n ddiwyd yn y cefndir yn gweinyddu gwaith yr elusen yng Nghymru.

Fodd bynnag, rai misoedd yn ôl, hysbyswyd y ddau ohonynt y byddai eu swyddi yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn, wrth i Saint y Gymuned benderfynu cael gwared ar eu gweithwyr ar lawr daear a chanoli eu gwaith ar eu swyddfa yn Lloegr. Wedi i Andy a Rachel rannu'r neges hon â'u cefnogwyr yng Nghymru, er y sioc a'r siom, daeth negeseuon yn ôl yn cynnig gobaith ac anogaeth.

Ar chwe achlysur gwahanol fe wnaethon nhw dderbyn adnodau – yr un adnod o chwe chyfeiriad gwahanol. Adnod o Eseia oedd hon, sef 43:19: 'Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd! Ydych chi ddim yn ei weld? Dw i'n mynd i agor ffordd drwy'r anialwch, a rhoi afonydd yn y tir diffaith' (beibl.net). Gyda diolch i'r cefnogwyr a'r gwirfoddolwyr ar lawr gwlad yng Nghymru, aed ati i sefydlu elusen newydd er mwyn rhyddhau a chynnal y gwaith pwysig hwn oedd wedi cael ei gyflawni dros 35 mlynedd gan Andy a Rachel. 43:19 fyddai'r enw ar yr elusen newydd hon.

Dydd Sadwrn, 19 Ionawr, calondid mawr oedd gweld eglwys 'Kinmel Bay Church' yn orlawn. Roedd dros 150 wedi dod ynghyd o bob rhan o Gymru a thu hwnt i lansio a gweddïo dros y gwaith newydd hwn. Braint oedd cael bod yno i glywed am rai o'r cynlluniau sydd ar y gweill. Pwysleisiwyd mai yno i wasanaethu oedden nhw, a'u bod yn awyddus i gydweithio a chefnogi gwaith sy'n bodoli eisoes. Mae sawl cynllun newydd ar y gweill mewn cydweithrediad â Chyngor yr Ysgolion Sul, a dwi'n ddiolchgar am y cydweithio hapus hwn.

Cafwyd sawl stori'n dangos lle mae gwaith Andy a Rachel wedi gwneud gwahaniaeth. Yn eu plith cafwyd gair gan y Parch. Deb Stammers, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn ardal Caergybi, a rannodd am y gefnogaeth a gafwyd i sefydlu clwb plant newydd yn Llannerch-y-medd, a hynny trwy ddwyn pum cynulleidfa Fedyddiedig at ei gilydd i gydweithio. Treuliwyd amser yn gweddio dros Gymru, dros Andy a Rachel, cyn eu comisiynu fel gweithwyr i wasanaethu yng Nghymru. Dymunwn bob bendith a llwyddiant ar eu gwaith.

Os hoffech gysylltu â 43:19, yna gallwch e-bostio rachelhughes4319@gmail.com neu ffonio 07766 069415.

*Aled Davies*

## Ymgyrchu dros Heddwch Ddoe a Heddiw



Trwy garedigrwydd Eglwys y Bedyddwyr, Tonyfelin, Caerffili, cynhaliwyd y cyntaf o'r cyfarfodydd cyhoeddus i nodi canmlwyddiant Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i eglwysi Unol Daleithiau'r America yno ar Sul, Ionawr 26. Dyma union ganmlwyddiant marw un o gymwynaswyr mawr heddwch yr 20fed ganrif, y Parch. Gwilym Davies, gafodd ei eni ym Medlinog. Gyda chefnogaeth cymdeithasau hanes lleol Gelligaer a Merthyr Tudful a'n partneriaid yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (y Deml Heddwch), bu pedwar am siarad am gyfraniad arbennig Gwilym Davies o ran heddwch ac eciwmeniaeth, a sut all hynny fod yn sbardun i ninnau heddiw. Bu Aled Eirug yn esbonio Gwilym yng nghyd-destun y mudiad heddwch cyfoes ehangach; Angharad Wyn Jones o Urdd Gobaith Cymru yn cyflwyno testun a baratowyd gan Siân Lewis am ei gyfraniad i'r Neges Ewyllys Da sy'n parhau hyd heddiw; Siân Rhiannon yn sôn am gyfraniad arbennig ei wraig, Mary Ellis; a Gethin Rhys yn cyflwyno hanes Apêl yr Eglwysi, taith Gwilym Davies i'r Unol Daleithiau ym 1925 a'r cofio a arfaethir ar gyfer 2025. Mae fideo o'r sesiwn (a gynhaliwyd yn Gymraeg) yma a rhagor o wybodaeth ar wefan Cytûn.

(O Fwletin Polisi Cytûn, Chwefror–Mawrth 2025; https://www.cytun.co.uk/bwletin-polisi-chwefror-mawrth-2025/)

---

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

### Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

### Galluogwr Cenhadol ar gyfer ardaloedd gwledig de'r Henaduriaeth

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad De Aberteifi a Gogledd Penfro.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 31– 35 (£32,150–£34,043) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, gan ddibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Gweithio o gartref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol, ac mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru; ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau:**
**22 Mawrth 2025, 4pm.**

---

**Hysbyseb swydd**

Addoldai Cymru
Welsh Religious Buildings Trust

### Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth

**Lleoliad – Cymru**
**Oriau Gwaith – 22.5 awr**
**Math o Swydd – rhan-amser**
**Dyddiad Cau – 21ain Chwefror 2025**

**Rhagor o fanylion**
Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru
Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth
Contract tymor penodol, 22.5 awr yr wythnos – (gellir ei adnewyddu'n flynyddol, yn dibynnu ar gyllido)

Mae Addoldai Cymru yn elusen a sefydlwyd i feddiannu detholiad o gapeli a thai cwrdd yng Nghymru sydd o arwyddocâd hanesyddol a/neu bensaernïol, sy'n rhan o hanes adeiladu capeli ac Anghydffurfiaeth yng Nghymru ac sy'n werthfawr i'w cymunedau lleol. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo ac yn annog cadwraeth a dehongli capeli a hanes capeli anghydffurfiol.

Rydym yn gyfrifol am 11 o gapeli a thai cwrdd hyd yn hyn, ac rydym yn symud ymlaen â thri arall. Cawn ein cefnogi gan grant refeniw bach gan Lywodraeth Cymru (trwy Cadw), ond rydym hefyd yn dibynnu ar ewyllys da ein cefnogwyr, trwy aelodaeth, mynychu digwyddiadau a rhoddion.

Rydym yn chwilio am ysgrifennydd i fod â chyfrifoldeb rheolaethol dros yr Ymddiriedolaeth ac i sicrhau ei gweithrediad effeithiol ac effeithlon o fewn y gyllideb, polisïau a chyfarwyddyd fel y'u pennir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys rheoli materion ariannol a gweinyddol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, goruchwylio gwaith cynnal a chadw'r adeiladau/tiroedd, a datblygu ein gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus.

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag:

- ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o ddiben yr Ymddiriedolaeth
- y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg a Saesneg (mae sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yn ddymunol)
- sgiliau TG datblygedig a dealltwriaeth o gymwysiadau Microsoft 365/Office a meddalwedd fel BOX, XERO ac IN DESIGN
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i gymryd cyfrifoldeb ac i ddefnyddio eich menter eich hun, ac i drefnu a blaenoriaethu llwyth gwaith heriol er mwyn sicrhau amcanion hirdymor a thymor canolig
- profiad o reoli cyllidebau a chyfrifon ac ymdrin â mecanweithiau cyllido a gweithdrefnau ymgeisio am grantiau

Cyfeiriwch at y swydd-ddisgrifiad sydd i'w gael yma: https://welshchapels.wales/support-us/staff/swydd-newydd-new-post-ysgrifennydd-yr-ymddiriedolaeth-trust-secretary/

am ragor o wybodaeth, a danfonwch eich CV ynghyd â manylion pam rydych yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

Cyflog a Buddion:

Cyflog o £24,132.60 y flwyddyn (£40,221.00 pro rata, pwynt 32 ar y golofn gyflog ar raddfa gyflog awdurdodau lleol y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol) a 17 diwrnod o wyliau â thâl ynghyd â gwyliau cyhoeddus. Bydd cyfraniadau o 6% o'r cyflog gros yn cael eu talu tuag at gynllun pensiwn cymeradwy.


Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion heb ystyried oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a phriodas a phartneriaethau sifil.

Dyddiad Cau: 21ain Chwefror 2025

Mae Addoldai Cymru yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar.

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 5: Doethineb ac ynfydrwydd**

**Llyfr y Pregethwr 1:12–2:26 (parhad)**

Oherwydd ei aflwyddiant wrth geisio atebion yn archwilio pleser y mae'r Pregethwr, am y tro, yn rhoi'r gorau iddi. Ond nawr, mae'n troi ei olygon unwaith eto at ddoethineb ac ynfydrwydd: y ddwy ffordd o fyw a ystyriodd yn gynharach cyn eu diystyru fel ymlid gwynt (1:17–18). Wrth eu cymharu'n feirniadol (2:12–13), fe ddaw i'r casgliad y tro hwn fod doethineb yn rhagori ar ynfydrwydd, gan fod y doeth yn mynd trwy fywyd "yn gwybod ble maen nhw'n mynd, ond mae ffyliaid yn cerdded mewn tywyllwch" (beibl.net).

Mae cyferbynnu'r doethion â'r ffyliaid yn destun cyson mewn Llên Doethineb. Ceir amryw o enghreifftiau yn Llyfr y Diarhebion, e.e.

> Mae plentyn doeth yn gwneud ei dad yn hapus;
> ond mae plentyn ffôl yn gwneud ei fam yn drist. (Diarhebion 10:1)
>
> Mae pobl ddoeth yn rhannu gwybodaeth;
> ond dydy ffyliaid ddim yn gwneud hynny. (Diarhebion 15:7)

Eto, er y gwahaniaethau sydd rhyngddynt, nid oes unrhyw arwyddocâd i hynny wyneb yn wyneb â marwolaeth. Dywed, "Ond wedyn, yr un dynged sy'n disgwyl y naill a'r llall." (2:14) Mae'r ddau fel ei gilydd yn mynd i ebargofiant. Felly, pa elw sydd i unrhyw un o fod yn ddoeth? Ei obaith oedd y byddai tynged y doeth yn wahanol i dynged y ffôl. Ond nid yw'n ymddangos fod hyn yn wir. Yn raddol, mae'n suddo wrth ymresymu i gors o siom a rhwystredigaeth – rhywbeth all ddigwydd i ninnau wrth ystyried y byd a'r bywyd hwn. Yn adn.17 mae'n dweud ei fod yn casáu'r bywyd hwn oherwydd bod popeth yn y pen draw yn ddiystyr. Onid oes tueddiadau pruddglwyfus iawn yn perthyn i natur y Pregethwr? Druan ohono.

I wneud pethau'n waeth, gŵyr y bydd rhaid iddo adael ei eiddo i'r un a ddaw ar ei ôl, "A phwy a ŵyr fydd y person hwnnw'n ddoeth neu'n ffŵl? Ond bydd e'n dal i reoli'r holl gyfoeth dw i wedi gweithio mor galed amdano a defnyddio fy noethineb i'w gael. Dydy hyn chwaith yn gwneud dim sens!" (Pregethwr 2:19)

Mae cors ei feddyliau'n tywyllu fwyfwy wrth iddo ofyn y cwestiwn, "Beth mae rhywun yn ei ennill ar ôl yr holl ymdrech diddiwedd?" Ac fe etyb ei gwestiwn ei hun gyda'r sylw digalon: "Dim ond pryder a rhwystredigaeth drwy'r dydd, ac wedyn methu ymlacio yn y nos hyd yn oed! Dydy e'n gwneud dim sens!" (2:23)

**Rhyngu bodd Duw**

Yna ar drawiad amrant, mae'r awyrgylch yn newid. Am eiliad, fe gawn fflach o rywbeth gwahanol i'r gweithiwr caled sy'n cael ei lethu gan ofid a phryder. Yma, mae'r pwyslais ar werthfawrogi pleserau syml bywyd: "Y peth gorau all rhywun ei wneud ydy bwyta, yfed a mwynhau ei waith. A dyma fi'n sylweddoli mai Duw sy'n rhoi hyn i gyd i ni." (2:24)

Rhoddion gan Dduw yw bwyd a diod a gwaith, ynghyd â'r gallu i'w mwynhau. Trwyddynt, daw'r crediniwr i gysylltiad â'r rhoddwr y tu ôl i'r rhodd. Mae Duw yn rhoi 'doethineb, deall a llawenydd i'r sawl sy'n ei blesio' (2:26), hynny yw, y sawl sy'n derbyn ac yn gwerthfawrogi ei roddion. Ond i'r sawl sy'n gwrthod cydnabod Duw, y cyfan fydd yn ei wneud fydd pentyrru eiddo'n ddiystyr heb unrhyw fwynhad, a'r diwedd fydd ei basio ymlaen i rywun fydd yn plesio Duw.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. O ystyried y drygioni a'r dioddef sydd yn y byd, ydych chi'n cytuno â'r Pregethwr na 'ellir unioni yr hyn sydd gam'? Does dim modd sythu rhywbeth sydd wedi'i blygu! (Pregethwr 1:15)

2. Mae athrawiaeth cosb a gwobr yn greiddiol i Gyfraith Moses. Ydych chi'n credu bod Duw'n cosbi'r drwg ac yn gwobrwyo'r da yn y bywyd hwn?

3. A allwch chi gydymdeimlo ag anobaith dwfn y Pregethwr wrth edrych ar gyflwr dynoliaeth heddiw? Sut mae gwrthweithio'r anobaith hwn?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Chwefror – dim rhaglen**

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa ar Ŵyl Fair y Canhwyllau dan ofal Natalie Morgan, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

# Clegar

Yn ystod tymor yr hydref dangoswyd cyfres o fideos gan Ebeneser, Caerdydd, yn ein hoedfaon ar fore Sul yn dwyn y teitl *Clegar*. I'r rhai hynny ohonom sydd o gefndir trefol neu ddinesig ystyr y gair clegar yw'r sŵn mae adar yn ei wneud. (Dyma ddiffiniad Geiriadur Prifysgol Cymru o'r gair: gwneuthur sŵn (am adar), clocian, clwcian, trydar, clochdar; mân siarad, hel straeon, chwedleua: *to cry (of birds), cackle, cluck, clack; tattle, prattle, gossip*.

Bwriad y fideos yw dysgu mwy am weithgareddau a gweledigaeth Cristnogion eraill yng Nghymru ac ar hyd a lled y byd fel ein bod yn cael ein hysbrydoli wrth weld ymroddiad eraill. Cawn gyfle wedyn i weddïo tros waith y Deyrnas mewn mannau eraill. Wrth i'r gyfres o gyfweliadau ddatblygu byddwn yn canolbwyntio ar gymunedau Cristnogol sy'n gweithio yn benodol trwy iaith leiafrifol. Gellir gweld y cyfweliadau byrion ar sianel YouTube Ebeneser.




**Hyfforddi**

Yn y fideo cyntaf cafwyd cyfweliad gyda'r Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn. Ef yw Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau'r Undeb. Rhannodd gyda ni am ei waith a'i weledigaeth a'r cyrsiau y mae yn eu cynnal. Eisoes y mae wedi cynnal cyrsiau hyfforddi ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn pregethu fel eu bod yn gwella eu sgiliau. Gellir cael cymhwyster gan yr Annibynwyr fel pregethwr cynorthwyol. Hefyd cynhaliwyd cwrs 8 sesiwn ar addoliad ac astudio'r Beibl, o dan arweiniad Arfon Jones.

Yn raddol mewn cydweithrediad â nifer o arbenigwyr y mae'n paratoi modiwlau newydd ar Hanes yr Eglwys. Newyddion da yw bod nifer eisoes wedi eu cymeradwyo i fod yn bregethwyr cynorthwyol ac erial am ddilyn cyrsiau addysg uwch. Mae'r rhain, gan fwyaf, yn cael eu cynnal yn rhithiol ar Zoom. Os oes gennych ddiddordeb i ddatblygu eich doniau fel pregethwr neu arweinydd mewn cynulleidfa, rhowch wybod i Carwyn.



**Gwlad y Basg**

Yn yr ail fideo cafwyd sgwrs gyda Dan Scott sydd wedi plannu eglwys yn nhref Orio, Euskal Herria (Gwlad y Basg). Mae oddeutu 800,000 bobl yn siarad Euskara (Basgeg) ac y maent yn byw ar y ffin rhwng Sbaen a Ffrainc. Ychydig iawn o eglwysi sydd yn addoli trwy gyfrwng y Fasgeg ac felly mae gwaith Dan yn eithriadol o bwysig.

Ar hyn o bryd maent yn cyfarfod yn bythefnosol mewn caffi. Mae hwn o ddiddordeb mawr i ni fel Cymry Cymraeg gan fod Dan yn gweithio trwy gyfrwng iaith leiafrifol o fewn i ddiwylliant mwyafrifol Sbaeneg. Gellir gweld rhagor o'r hanes ar wefan linguaechristi.org euskara/



**Aotearoa**

Dangosir y fideo diweddaraf mewn oedfa yn ystod mis Ionawr. Cyfweliad ydyw gyda'r Parchg Mitchell Jaram o Aotearoa (Seland Newydd) yn trafod ei waith yn yr Eglwys Bresbyteraidd. Mae ef yn gweithio yng ngofalaeth Maori Whakatane, Auckland, ar ynys y gogledd, trwy gyfrwng yr iaith Maori. Er bod ein hieithoedd a'n diwylliannau yn amrywio y mae gennym lawer iawn o bethau sy'n gyffredin o ran yr heriau a'r problemau a wynebwn wrth gyflwyno'r Efengyl trwy iaith leiafrifol.

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# Y Drysorfa Gynorthwyol

### Grant i ofalaeth o un neu ragor o eglwysi tuag at gydnabod y gweinidog 2025

**Y nawdd:**

Hyd at £7,500 y flwyddyn, hyd at 5 mlynedd, i gynorthwyo gofalaeth, o un neu ragor o eglwysi, i dalu'r gydnabyddiaeth gychwynnol i'r gweinidog, ynghyd â thaliadau eraill, yn unol ag argymhelliad yr Undeb am 2025;

| | |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 29,989 |
| Lwfans tŷ (lle na byddo tŷ di rent a di-dreth wedi ei ddarparu) | 5,231 |

Treuliau teithio (ar y raddfa a gymeradwyir gan Cyllid a Thollau EM 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf a 25c am bob milltir wedyn)

**Amodau:**

Yn achos gofalaeth o ragor nag un eglwys gall un ohonynt gyflwyno'r cais

Disgwylir i bob eglwys

- fod wedi talu ei thanysgrifiad aelodaeth i'r Undeb yn llawn
- gyflwyno Adroddiad Ariannol pob eglwys am y ddwy flynedd flaenorol fydd,
  - i. yn dangos ymdrech deg ei haelodau i gyfrannu tuag at y weinidogaeth
  - ii. yn dangos nad oes ganddi adnoddau ariannol sylweddol wrth gefn, nad ydynt yn ymrwymedig, y gellid eu defnyddio tuag at gynnal y weinidogaeth

Dyfernir grant pro rata

- yn achos gofalaeth gydenwadol, i eglwys/i yr Annibynwyr
- n achos gofalaeth sy'n cynnal gweinidog rhan amser

**Gweinyddu:**

Ystyrir y ceisiadau gan y Panel Arfarnu.

Ymddiriedolwyr y Drysorfa Gynorthwyol fydd goruchwylwyr y cynllun grant â'r hawl ganddynt i'w addasu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

Bydd yn ofynnol cyflwyno cais yn flynyddol erbyn diwedd mis Mawrth i'w ddyfarnu erbyn diwedd mis Ebrill.

Am ffurflen gais cysyllter â'r Swyddog Gweinyddol meinir@annibynwyr.cymru 01792 795888.

# Barn Annibynnol

## Taliban Iesu Grist

Bu ffwndamentaliaeth Islamaidd yn destun embaras i fy holl ffrindiau Moslemaidd ers blynyddoedd lawer. Roedd yr awyrennau yn hedfan mewn i'r tyrrau yn Efrog Newydd i'w gweld mor groes i'w hymlyniad hwythau i ddisgyblaeth grefyddol dawel, hael a heddychlon. Ac wedyn roedd bygythiadau i lofruddio Salman Rushdie, llofruddiaethau lluosog o blant yn Nigeria, y Taliban creulon yn Afghanistan a llawer arall. Ar yr un pryd, byddai'n gyffredin i glywed Cristnogion yn dweud mai, 'dyna yw Islam'. 'Os ddarllenwch chi'r Quran, fe welwch chi ei fod yn llawn trais,' meddai nifer o Gristnogion.

### Dyddiau cyntaf Trump

Mae hi nawr yn Chwefror 2025 ac mae Cristnogion America wedi pleidleisio yn glir dros ddyn, a phlaid sydd yn gweithredu cyfres o bolisïau newydd ar frys. Wedi llabyddio'n gyhoeddus yr esgob dewr wnaeth bwysleisio ffordd Iesu Grist, daeth cyfres o bolisïau newydd i wahardd ffoaduriaid rhag hedfan mewn i America (hyd yn oed rhai oedd wedi cael eu ceisiadau wedi eu cymeradwyo eisoes), casglwyd ynghyd dramorwyr i'w taflu allan o'r wlad, canslwyd cymorth ariannol i wledydd tlota'r byd, rhoddwyd y sac i'r bobl oedd mewn swyddi oedd yn bodoli i fonitro gonestrwydd mewn bywyd cyhoeddus, rhoddwyd stop ar y polisi o sicrhau cydraddoldeb hiliol mewn swyddi cyhoeddus ac fe ataliwyd llwyth o wariant ar ymchwil meddygol fel ymchwil cancr.



### Polisïau creulon

Project 25 yw enw'r agenda sy'n rhedeg fel llinyn trwy'r polisïau, ac mae'n debyg mai dyma'r agosaf y buom yn y gorllewin at weld gwleidyddiaeth Talibanaidd ar waith. Fel gyda'r Taliban, mae'r rheiny sy'n gweithredu'r polisïau hyn yn defnyddio eu crefydd fel sail ddeallusol i'w gwaith. Yn yr achos hwn, maen nhw'n defnyddio eu dealltwriaeth o Gristnogaeth fel sail i bolisïau creulon fydd yn lleihau hawliau'r tlodion ac yn cynyddu cyfrifon banc y cyfoethogion.




### Anathema

Nid dros nos y daeth yr agenda hwn i fodolaeth, ac mae'r athrawiaethau wedi lledu i nifer o eglwysi yn Ewrop erbyn hyn. I'r mwyafrif llethol o Annibynwyr a Christnogion yng Nghymru, bydd egwyddorion Project 25 yn anathema llwyr, ond yn barod fe welwn ni ar-lein Gristnogion yng Nghymru yn cefnogi'r project. Tybiaf mai ein goddefgarwch ni yw rhan o'r broblem. Ry'n ni wedi bod yn barod i gydnabod fel brawd neu chwaer unrhyw un sy'n galw ei hun yn Gristion. Ond y cwestiwn mawr erbyn hyn yw: 'Pa mor bell mae'n rhaid i rywun fynd ar hyd llwybr Trump cyn i ni ddweud eu bod yn anghristnogol?'

### Mab Billy Graham

Un o strategwyr mawr agenda Trump yw Franklin Graham, mab yr anfarwol Billy Graham. Mae Franklin wedi llwyddo i ennyn cefnogaeth Cristnogion wrth fyw ar enw ei dad. Fodd bynnag, os edrychwn ni ar waith Billy Graham doedd yno ddim o ysbryd creulon Franklin. Gwnaeth ef safiad cadarn o blaid cydraddoldeb rhwng y du a'r gwyn, mewn cyfnod pan oedd hiliaeth wedi ei sefydlu yng nghyfansoddiad taleithiau.

Mae Franklin yn hoff iawn o ddefnyddio ei Feibl i gyfiawnhau ei agweddau cyntefig.

Rwy'n tybio y daeth yn amser i ni orfod gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n addoli rhannau o'u Beibl, a'r rhai sydd am ddilyn Iesu Grist. Mae Netanyahu a phobl Project 25 yn gallu byw gyda'r gorchymyn Beiblaidd yn llyfr cyntaf Samuel, 'Dos, yn awr, a tharo'r Amaleciaid, a'u llwyr ddinistrio hwy a phopeth sydd ganddynt; paid â'u harbed, ond lladd bob dyn a dynes, pob plentyn a baban, pob eidion a dafad, pob camel ac asyn.' Gallan nhw fyw gyda chreulondeb Hen Destament tra'u bod nhw'n mynd yn gwbl boncyrs fod Esgob Washington wedi ymbil arnyn nhw i weithredu egwyddorion y Gwynfydau.

Ydyn, ry'n ni wedi gweld genedigaeth Taliban Cristnogol, sydd yn anffodus yn defnyddio'r label 'efengylaidd' i ddisgrifio'u stabl. Mae'r Taliban newydd hwn yn barod wrthi'n creu problem i bawb arall sydd am ddiffinio eu hunain fel Cristnogion neu fel efengylwyr. Mae'r ddau label wedi eu pardduo'n ddifrifol yn llygaid y cyhoedd ac rwy'n tybio bod angen i ni ymateb i'r her mae hyn yn ei osod.

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# 'Mae'r Haleliwia yn f'enaid i.'

Ar ddechrau pob blwyddyn newydd mae gennym gymysgfa o deimladau fel, hiraeth a diolch wrth edrych yn ôl, a chyffro a phryder wrth edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod. Byr yw ein cyfnod ar y ddaear ac er ein holl honiadau hunanhyderus, bregus a meidrol ydym. Mae ffydd yn Iesu yn ein galluogi i edrych ymlaen tua'r dyfodol yn hyderus beth bynnag yw'n hamgylchiadau. Y mae gan rai y syniad ffug Gristnogol fod Duw yn gwobrwyo pobl yn faterol os ydynt yn dda. Mae rhai Cristnogion hyd yn oed yn dysgu 'prosperity gospel' sy'n dwyll celwyddog ac yn gwbl anfeiblaidd. Meddent; 'Os ydym ni yn credu fe fydd Duw yn ein bendithio gyda bywyd rhwydd a chyfoeth materol.' Ond wrth edrych ar fywyd go iawn fe wyddom nad yw hynny'n wir. Mae pobl dda yn gallu cael bywydau difrifol o anodd. Mae llyfr y Pregethwr yn sôn am hyn:

> 14 Ond wedyn, dyma beth sy'n gwneud dim sens yn y byd yma: mae rhai pobl sydd wedi byw yn ufudd i Dduw yn cael eu trin fel petaen nhw wedi gwneud drwg; ac mae rhai pobl ddrwg sy'n cael eu trin fel petaen nhw wedi byw yn iawn! Fel dw i'n dweud, dydy'r peth yn gwneud dim sens!

### Symptom

Felly nid yw cyfnodau anodd bywyd, yn golygu melltith Duw ar y Cristion. Sympton yw caledi bywyd yn hytrach o'r byd syrthiedig hwn ar hyn ddigwydd yn sgil effeithiau'r cwymp. Wrth i ni ystyried hyn ymhellach rwyf am i eiriau emyn Rhys Nicholas fod yng nghefn eich meddyliau a'r geiriau gwefreiddiol, 'Mae'r Haleliwia yn fy enaid i a rhoddaf Iesu fy mawrhad i ti.'

Fel Cristnogion mae'r Beibl yn ein dysgu fod gennym ddealltwriaeth wahanol i bobl sydd heb ffydd. Ystyriwch y geiriau hyn o lyfr y proffwyd Habacuc.

> Dw i'n mynd i ddisgwyl yn dawel i ddydd trybini
> ddod ar y bobl sy'n ymosod arnon ni.
> 17 Pan mae'r goeden ffigys heb flodeuo,
> a'r grawnwin heb dyfu yn y winllan;
> Pan mae'r coed olewydd wedi methu,
> a dim cnydau ar y caeau teras;
> Pan does dim defaid yn y gorlan,
> nac ychen yn y beudy;
> 18 Drwy'r cwbl, bydda i'n
> addoli'r ARGLWYDD
> ac yn dathlu'r Duw sydd yn fy achub i!
> 19 Mae'r ARGLWYDD, fy meistr, yn rhoi
> nerth i mi,
> ac yn gwneud fy nhraed mor saff â'r carw
> sy'n crwydro'r ucheldir garw.
> Habacuc 3: 17–19


### Addoli Duw doed a ddelo

Mae'r Arglwydd yn fy achub, ef yw fy ngheidwad ac ef sy'n rhoi'r nerth sy'n fy ngalluogi i gerdded trwy y bywyd hwn yn ddiogel. O aralleirio'r adnodau uchod hyn, mae'r proffwyd yn dweud, 'er bod bywyd yn galed, eto dwi'n addoli'r Arglwydd trwy'r cwbl. Nid wyf yn deall pam fod bywyd yn anodd, eto rwy'n ymddiried yn Nuw.'

### Trwy ras Duw

Ein braint aruthrol, trwy Iesu, yw ein bod yn byw mewn perthynas gyda Duw. Dyma yw uchafbwynt ein bodolaeth. Nid cyfoeth, nid eiddo, nid gyrfa, nid llwyddiant. Mae gennym y berthynas hon beth bynnag fydd yn digwydd i ni ac o ganlyniad rydym yn ddiogel ym mynwes ein Tad nefol. Rydym ni i gyd yn ein tro fel teuluoedd ac unigolion yn mynd trwy'r dyffryn tywyll du. Beth bynnag yw'r rhesymau am hynny, marwolaeth, iselder, salwch, problemau teuluol, problemau yn y gwaith. Eto mae'n hapusrwydd a'n dedwyddwch *yn Nuw*. Mae'n ein caru, mae'n ein hachub ac y mae gyda ni trwy'r Ysbryd bob dydd. Gwyddom ein bod yn ddiogel ac fe roddir y sicrwydd hwnnw trwy ras Duw yn Iesu. Hyd yn oed os y bywyd yn chwalu yn deilchion nid yw ein perthynas gyda'r Arglwydd yn darfod ac nid yw caledi yn arwydd bod Duw wedi cefnu arnom. Cofiwch hynny yn y dyddiau anodd efallai y byddwch yn eu hwynebu yn 2025.

Mae'r Haleliwia yn fy enaid i a rhoddaf Iesu fy mawrhad i ti.




## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*